

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan  
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>		<b>NOTICE OF MEETING</b>	
<b>PWYLLGOR GWAITH (ARBENNIG)</b>		<b>THE EXECUTIVE (EXTRAORDINARY)</b>	
<b>DYDD LLUN 17 AWST 2020 10.30 o'r gloch</b>		<b>MONDAY 17 AUGUST 2020 10.30 am</b>	
<b>CYFARFOD RHITHIOL</b>		<b>VIRTUAL MEETING</b>	
Swyddog Pwyllgor	<b>Ann Holmes 01248 752518</b>	Committee Officer	

## **AELODAU/MEMBERS**

### **Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAGS,  
Robin Wyn Williams

### **Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

## **COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION**

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosib.

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **MATERION BRYD A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion bryd ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

### 3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod rhithiol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020.

### 4 **Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF AR GYNLLUNIO A CHYFLAWNI ADFERIAD O'R CORONAFEIRWS** (Tudalennau 11 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

### 5 **Y POLISI GOSOD AR GYFER TAI CYMDEITHASOL A COVID-19** (Tudalennau 23 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

### 6 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 29 - 32)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”

### 7 **DATBLYGIADAU TAI YCHWANEGOL** (Tudalennau 33 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

## Y PWYLLGOR GWAITH

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd 13 Gorffennaf, 2020

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd) Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)  Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gwasanaethau Plant Pennaeth Gwasanaethau Tai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ) Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) Swyddog Cyfathrebu (GJ) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Dim wedi'u derbyn
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Aled Morris Jones, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Bethan Roberts (Archwilio Cymru, fel Sylwedydd) Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn yr ail gyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith i'w gynnal yn ystod argyfwng pandemig Covid-19.

Cyn cychwyn ar fusnes y cyfarfod, cynhaliwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch at bawb y cafodd pandemig Covid-19 effaith arnynt ac oedd wedi colli teulu a ffrindiau.

#### 1. **DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd datganiad o ddiddordeb.

#### 2. **MATERION BRYN A ARDYSTIUYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim i'w adrodd.

#### 3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd 15 Mehefin, 2020.

## **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2020 fel rhai cywir.**

### **4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a ymgorfforai flaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Medi 2020 ac Ebrill 2021 a nodwyd yr eitemau newydd a ganlyn -

- Eitem 7 - Adroddiad ar y Perfformiad Blynyddol (ar gyfer cyfarfod Medi 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)
- Eitem 8 - Adroddiad cynnydd gan Banel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer cyfarfod Medi, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)
- Eitem 9 - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer cyfarfod Medi, 2020 o'r Pwyllgor Gwaith)

Dywedwyd ymhellach wrth y Pwyllgor Gwaith y byddid yn cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Gwaith, 17 Awst, 2020 ac y byddai dwy eitem o fusnes y Gwasanaeth Tai, sef eitem 10 - Addasiadau i'r Polisi Gosodiadau i ymdrin ag Unigolion mewn Llety Brys ac eitem 11 - Unedau Ychwanegol ar Safle Marquis, Rhosybol, y bwriedir eu hystyried yng nghyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor Gwaith, nawr yn cael eu dwyn ymlaen i gyfarfod mis Awst, oherwydd newidiadau pellach i'r rhaglen waith.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cyfarfod ychwanegol ym mis Awst gan gredu ei fod yn angenrheidiol, o gofio'r amgylchiadau, a hefyd er mwyn datblygu busnes cyffredin y Cyngor fel rhan o'r broses adfer yn gynnar.

## **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Medi, 2020 i Ebrill, 2021 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

### **5. CYNLLUNIO GWAITH CYNNAR AR GYFER ADFER YN DILYN HAINT Y CORONAFEIRWS**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar y dull cychwynnol o gynllunio adferiad cynnar.

Adroddodd y Cadeirydd fod penderfyniadau wedi'u gwneud yn ddiweddar i lacio mesurau'r cyfyngiadau symud ac i ddechrau ailagor cymdeithas. Bellach roedd yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor i arwain adferiad yr Ynys ac roedd wedi ymrwymo i gynllunio ar gyfer y rôl hon a'i chyflawni'n llawn wrth barhau i gydweithredu'n effeithiol gyda'i phartneriaid rhanbarthol. O'r herwydd, byddai'r Cyngor yn canolbwyntio ar anghenion lleol ac yn defnyddio'i lais i ddylanwadu ar y broses adfer rhanbarthol mewn ffordd oedd yn diwallu'r anghenion hynny. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd, amlinellwyd y strwythurau rhanbarthol oedd yn eu lle i gynllunio ar gyfer y cam adfer ynghyd â'r strwythurau lleol a mewnol a'r trefniadau ar gyfer adrodd ac atebolrwydd. Roedd y raddfa, yr ansicrwydd parhaus a'r heriau oedd yn gysylltiedig â'r argyfwng coronafeirws wedi arwain at ddull cyfochrog oedd yn golygu bod cynllunio ymateb ac adfer, ar hyn o bryd, yn gweithredu law yn llaw ar lefelau rhanbarthol a lleol yn yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel cyfnod trosiannol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at anferthwch a chymhlethdod y cyfnod adfer a wnaed yn fwy heriol gan yr ansicrwydd a chan risg o gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o coronafeirws. Roedd Grŵp Cydlynu Adferiad rhanbarthol wedi'i sefydlu i weithio ochr yn ochr â'r Grŵp Cydlynu Strategol rhanbarthol. Roedd y grŵp hwn wedi bod yn gyfrifol am y cyfnod ymateb brys yng Ngogledd Cymru i sicrhau dull rhanbarthol strategol oedd yn gyson ac yn gydlynol o ran cynllunio adferiad a adlewyrcha hynny yn ystod cyfnod yr argyfwng. Roedd cynllunio gwaith cynnar ar gyfer adfer y Grŵp Cydlynu Adferiad yn troi o amgylch tri maes thematig -

adferiad lechyd a Gofal; adferiad Economaidd ac adferiad Gwydnwch Cymunedol, pob un gyda'i grŵp ymroddedig. Ceid gwaith goruchwyliaeth a chydlynu gan strwythurau rhanbarthol a lleol presennol. Ychwanegwyd Profi, Orlhain a Diogelu yn ddiweddar fel maes thematig.

Yn lleol, cynigiwyd bod y strwythurau a'r berthynas waith a sefydlwyd gyda Menter Môn a Medrwn Môn, gyda darpariaeth gymunedol leol a rhwydweithiau gwirfoddol cryf, yn cael eu hatgyfnerthu a'u cynnal lle bo hynny'n bosibl ar gyfer y cyfnod adfer. Canlyniad cadarnhaol yn sgil yr argyfwng fu ymateb y gymuned a rhoddwyd diolch arbennig i'r holl wirfoddolwyr oedd wedi cefnogi'r Cyngor yn ystod yr amser anodd hwn. Cydnabuwyd bod adferiad economaidd pob sector yn arbennig o bwysig a byddai angen i'r Cyngor benderfynu sut gallai ddarparu gwasanaethau'n wahanol er mwyn datblygu'r economi a chreu swyddi ac, yr un pryd, chwarae ei ran mewn "adferiad gwyrdd". Nid oedd modd tanbriso pwysigrwydd a gwerth y sector twristiaeth a lletygarwch a byddai'r Cyngor yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd oedd yn bodoli fel rhan o'r normal newydd i ailddyfeisio'r Ynys fel cyrchfan i dwristiaid. Byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i ddiogelu dinasyddion Ynys Môn yn y gymuned ac mewn lleoliadau preswyl. O ganlyniad, byddai rhaid ystyried a rheoli gwytnwch gwaith staffio'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau parhad busnes.

O ran strwythurau mewnol a threfniadau llywodraethu, roedd cysondeb a chyd-fynd â'r strwythurau cydgysylltu rhanbarthol yn bwysig, gan sicrhau hefyd y câi cynlluniau cyflenwi lleol eu sefydlu, eu blaenoriaethu a'u defnyddio. Byddai'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn gyfrifol am gynllunio a chyflawni adferiad, gyda'r Pwyllgor Gwaith yn goruchwyllo'r gwaith cynllunio adferiad a darparu a gwneud penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau a / neu ailgyfeirio, fel sy'n briodol. Byddai'r UDA yn ymgysylltu ac yn defnyddio'r ddau Fwrdd Rhaglen (a ehangwyd yn ddiweddar i gynnwys y pedwar arweinydd grŵp gwleidyddol) i ddylanwadu ar hynt gwaith cynllunio adferiad a'i lywio. Wrth i'r grwpiau gwleidyddol a'r Pwyllgorau Craffu ddychwelyd i fusnes, byddai angen iddynt ystyried y cynlluniau adfer. Câi'r gwaith adfer ei gyflwyno'n raddol wrth i'r Cyngor lacio'r cyfyngiadau symud yn ddiogel.

Wrth roi gwybod am sylwedd manwl yr adroddiad, amlygodd y Dirprwy Brif Weithredwr y pwyntiau a ganlyn -

- Er bod y rhagolygon o ran symud tuag at adferiad wedi ymddangos yn addawol, roedd modd i'r sefyllfa newid yn sydyn ac yn gyflym. Rhaid oedd i'r Cyngor fod yn barod ar gyfer senario o'r fath a bod yn barod i gymryd cam yn ôl a diwygio cynlluniau lle bo angen.
- Roedd gwaith lleol, o ran sefydlu lle roedd y Cyngor ar hyn o bryd a'r cyfeiriad yr oedd am fynd iddo, wedi cychwyn rai wythnosau yn ôl ac, er y byddai rhai elfennau o adferiad o fewn rheolaeth y Cyngor, byddai'r rhan fwyaf o agweddau'n dibynnu ar ymyriadau adnoddau a pholisi Llywodraeth Cymru ac, i raddau llai, y Llywodraeth Ganolog. Wrth lunio ei gynlluniau adfer felly, byddai'r Cyngor yn ceisio sefydlu'n gynnar y meysydd lle gallai weithredu ei hun, naill ai trwy wariant neu drwy wneud pethau'n wahanol, a'r meysydd hynny lle roedd y penderfyniadau'n dod o fewn maes llywodraethau cenedlaethol neu ganolog. Byddai cydweithredu rhanbarthol yn allweddol er mwyn sicrhau y dylanwadir yn llwyddiannus ar yr ymyraethau i sicrhau eu bod yn amserol ac yn diwallu anghenion yr Ynys.
- Un o'r negeseuon allweddol o'r argyfwng oedd pan gâi penderfyniadau eu gwneud yn amserol a, lle roedd ganddo rôl i'w chwarae, y caent eu gwneud ar y cyd â llywodraeth leol, yna bu'n bosibl mynd i'r afael â'r heriau oedd yn bodoli, boed o fewn y gymuned, yr economi neu yn rhywle arall.
- Am nawr, byddai'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ymdrin â'r argyfwng wrth gadw llygad ar y broses adfer. Er cydnabod y byddai adfer yr argyfwng yn peri sawl her, roedd y broses adfer hefyd yn cynnig cyfleoedd oedd yn deillio o'r arferion da a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod argyfwng, er enghraifft gweithio ar y cyd â phartneriaid

a gwirfoddolwyr, gweithio o bell a defnyddio offer digidol a, thrwy hynny, arbed amser ac adnoddau a lleihau carbon. Byddai angen i'r Cyngor adolygu'r cyfleoedd oedd ar gael iddo ac asesu sut y gallai weithredu orau ar y cyfleoedd hynny er mwyn gweithio'n fwy effeithiol ac effeithlon yn y dyfodol.

- Byddai'n rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu'r defnydd a wneid o amser ac adnoddau oedd yn gyfyngedig, a byddai hyn yn heriol. Hefyd, ni ddylid ystyried bod y broses adfer yn rhywbeth ar wahân neu ar ei ben ei hun ond bod angen ei chynnwys ac iddi ddod yn rhan naturiol o gynlluniau gwasanaethau a gwaith o ddydd i ddydd yn ystod y deunaw mis nesaf, yn union yr un ffordd ag yr oedd technoleg gwybodaeth, cydraddoldeb a gofynion y Gymraeg wedi gwreiddio ym musnes beunyddiol y Cyngor dros amser.
- Roedd adferiad hefyd yn ymwneud cymaint â sut oedd y Cyngor yn gwneud busnes ag â'r hyn yr oedd yn ei wneud ac yn rhoi cyfle i ddatblygu'r Cyngor a chyflwyno a chyflymu newidiadau a gynlluniwyd o ran gwneud y Cyngor yn fwy ynni a charbon effeithlon er enghraifft. Trwy gydol hyn, byddid yn parhau i ganolbwyntio ar y lleol, ac er bod y Cyngor wedi ymrwymo i gydweithio ac i weithio ochr yn ochr â'i bartneriaid yn y rhanbarth, byddid yn blaenoriaethu'r Ynys ac yn ceisio gwneud gwahaniaeth lle gallai.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad fel un addysgiadol ac amlygu'r egwyddorion allweddol oedd yn llywio'r dull cychwynnol a amlinellwyd yn yr adroddiad - gan gymryd agwedd bwyllog a chymesur tuag at waith thematig; gweithio'n hyblyg ond nid yn slafaid, o fewn strategaeth adfer y Llywodraeth; defnyddio'r fframweithiau partneriaeth rhanbarthol presennol i'r eithaf; cydbwysu rhanbartholiaeth a lleoliaeth wrth gynllunio a gweithredu; osgoi creu peiriannau biwrocraidd a grymuso arweinwyr rhanbarthol i roi cyfeiriad strategol gwleidyddol - fel rhai a lywiai'r broses adfer yn gadarn a synhwyrol.

Cyfeiriodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith at y canlynol fel negeseuon allweddol yr oeddent wedi'u cymryd o'r ymateb i'r argyfwng pandemig hyd yn hyn -

- Pwysigrwydd cynnal ac adeiladu ar ymateb rhagorol y gymuned a gwirfoddolwyr i'r argyfwng oedd wedi rhoi cefnogaeth werthfawr i ymdrechion y Cyngor ei hun i ymateb i'r gymuned ac i'r argyfwng.
- Pwysigrwydd gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau democratiaeth ddigidol - cyfarfodydd rhithwir a gweithio o bell - i arbed amser ac adnoddau ac i leihau ôl troed carbon y Cyngor. Byddai hyn yn gofyn am fuddsoddi mewn gwasanaethau TG.
- Pwysigrwydd defnyddio gallu'r Cyngor i addasu i risgiau, heriau a gofynion newydd fel y dangoswyd gan ei ymateb i'r argyfwng, i weithredu gwelliannau parhaol i wasanaethau a phrosesau.
- Pwysigrwydd cydweithredu'n rhanbarthol er mwyn dylanwadu ar ymyraethau San Steffan a Llywodraeth Cymru i sicrhau y câi anghenion y rhanbarth ac, yn arbennig, anghenion Ynys Môn eu diwallu.

Nododd yr Is-gadeirydd y bwriad i ailddyfeisio'r Ynys fel cyrchfan a gofynnodd am adroddiad ar sut gellid cyflawni'r dyhead hwn. Wrth gadarnhau bod papur o'r fath eisoes ar y gweill, dywedodd y Prif Weithredwr mai'r bwriad hefyd oedd datblygu cynlluniau gweithredu pendant dan bob pennawd thematig i roi cyhoeddusrwydd i'r hyn a fyddai'n digwydd yn ymarferol dan bob thema. Byddid yn gwneud adroddiad cynnydd pellach i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Awst a fyddai'n nodi'r cynlluniau hynny'n llawnach. Adleisiodd sylwadau'r Dirprwy Brif Weithredwr am yr heriau oedd o'u blaenau gan gytuno y ceid hefyd gyfleoedd i'r Cyngor yn sgil yr arferion da a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymateb brys. Byddai'r Cyngor yn manteisio ar y ffyrdd newydd o weithio a ddatblygwyd yn ystod yr argyfwng wrth hefyd gadw llawer o'r prosesau sefydledig.

**Penderfynwyd cymeradwyo ymagwedd y Cyngor o ran gwaith cynllunio ar gyfer adfer gan flaenoriaethu a chanolbwyntio ar gyflenwi'n lleol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.**

## **6. EFFAITH ARIANNOL Y PANDEMIG COVID-19**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi effaith ariannol amcangyfrifedig y pandemig Covid-19 ar gyllid y Cyngor Sir yn 2020/21, ynghyd â'i oblygiadau tymor hwy ar gyfer sefyllfa ariannol y Cyngor.

Adroddodd yr Aelod Portffolio - Cyllid fod pandemig Covid-19 wedi creu ansicrwydd sylweddol yng nghyllideb 2020/21 a hefyd yn yr arian y câi llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau ac amcangyfrifon a gallai'r canlyniad terfynol newid o'r asesiad effaith cychwynnol hwn. Byddai'r adroddiad yn bwydo i mewn i Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a gâi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi, 2020 a byddai'n nodi'r strategaeth ariannol ar gyfer cyllideb refereniw 2021/22. Byddai'r sefyllfa ariannol hefyd yn dylanwadu ar weithgareddau a dull cynllunio adferiad y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn nodi'r meysydd lle 'roedd effaith ariannol argyfwng Covid-19 yn debygol o gael ei deimlo fwyaf ac yn ceisio rhoi amcangyfrif o raddfa'r broblem. I grynhoi –

- **Paratoi ar gyfer y Pandemig** - roedd risg pandemig byd-eang wedi bod ar gofrestr risg y Cyngor ac roedd yn un o'r materion oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal cronfeydd ariannol digonol (£7.06m mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar 31 Mawrth, 2020). Dangosai Adran 2 yr adroddiad sut roedd penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â chynnal cronfeydd ariannol, rheoli trysorlys a Threth y Cyngor (trwy anfon biliau allan wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau a, thrwy hynny, sicrhau llif incwm gan y rhai a allai dalu) wedi helpu llif arian o ddydd i ddydd y Cyngor a'i gwneud yn bosib iddo dalu costau ychwanegol yr argyfwng.
- **Gwariant Tymor Byr i ymdrin â'r Pandemig** - roedd adran 3 yr adroddiad yn nodi'r meysydd lle'r oedd y Cyngor wedi ysgwyddo costau ychwanegol wrth ddelio ag argyfwng y pandemig. Roedd mwyafrif helaeth y costau hyn wedi'u talu gan Lywodraeth Cymru, oedd wedi sicrhau bod cyfanswm o £120m ar gael i Gynghorau Cymru i dalu'r gwariant ychwanegol. Hyd yma, roedd Cyngor Ynys Môn wedi hawlio £858k am gostau yr aethpwyd iddynt ym misoedd Mawrth, Ebrill a Mai. Câi cais arall am fis Mehefin ei gyflwyno ym mis Gorffennaf oedd yn debygol o fod yn fwy na hawliad mis Mai o £526k
- **Colli incwm o Ffioedd a Thaliadau** - roedd y Cyngor yn cynhyrchu dros £5m mewn incwm yn flynyddol o ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd. Lle tynnwyd gwasanaethau yn ôl - Canolfannau Hamdden, prydau ysgol, meysydd parcio, clybiau gofal ysgolion, llyfrgelloedd, Oriel Ynys Môn - collwyd yr incwm a fyddai, fel arfer, wedi'i gynhyrchu. Efallai y byddai incwm rhai gwasanaethau - Cynllunio, Rheoli Adeiladu, Cofrestryddion, Ailgylchu a Chasglu Gwastraff Swmpus, Taliadau Tir a gwaith stryd Priffyrdd - nad oeddynt wedi bod yn gweithredu, wedi'u gohirio er y gellid derbyn yr incwm pan fyddid yn llacio'r cyfyngiadau symud. Roedd yn anodd amcangyfrif y golled incwm yn gywir gan ei bod yn dibynnu ar nifer y defnyddwyr gwasanaeth a ffactorau tymhorol ond, yn seiliedig ar ffigurau 2019/20, yr amcangyfrif oedd y gallai'r Cyngor fod wedi colli £1.23m mewn incwm am y cyfnod Ebrill i Fehefin, 2020 (£950k wedi'i gollu'n barhaol a £280k o bosibl wedi'i gollu). Gan fynd â'r cyfrifiadau ymhellach, trwy ddefnyddio'r wybodaeth oedd wedi'i chasglu yn ystod 2019/20 a'r rhagdybiaethau a nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad am allu pob gwasanaeth i gynhyrchu incwm yng ngoleuni mesurau pellhau cymdeithasol a gallu unigolion i wario wrth i'r effaith economaidd ddod i rym, gallai'r golled bosibl i incwm y Cyngor hyd at ddiwedd y

flwyddyn ariannol ddod i gyfanswm o £3.426m. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y byddai colli incwm yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd ariannol cynghorau ac wedi cyhoeddi £78m ychwanegol mewn cymorth cyllido, y câi dwy ran o dair ohono ei ddefnyddio i ddiogolledu cynghorau am golli incwm, er nad oedd cadarnhad hyd yma ar sut y câi'r incwm hwn ei ddsbarthu.

- **Arbedion Gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud** - wrth i'r gwasanaethau gau, cafwyd rhai arbedion gwariant oherwydd na ddefnyddiwyd adeiladau ac, felly, arbedwyd ar ynni. Nid oedd yn ofynnol i weithredwyr bysiau ysgol ac arlwywyr ysgolion ddarparu gwasanaethau ac roedd y gost weinyddu yn is gan fod staff yn gweithio o gartref. Roedd yr arbedion yn lleihau'n gyflym unwaith y câi'r cyfyngiadau symud eu llacio ac adeiladau eu defnyddio eto, hyd yn oed ryw gymaint, h.y. roedd yn rhaid eu goleuo, eu cynhesu a'u glanhau o hyd. £370k oedd cyfanswm yr arbedion gwariant amcangyfrifedig am y cyfnod Ebrill i Fehfin 2020 (cyfeiriai Tabl 3 yr adroddiad at hyn). Amcangyfrifwyd y byddai'r arbedion cyfun ar draws yr holl benawdau yn Nhabl 3 yn £71k ym mis Gorffennaf, 66k ym mis Awst a £7k ym mis Medi a chyn lleied â phosibl wedi hynny, gan ragdybio y byddai holl wasanaethau'r Cyngor yn gweithredu i ryw raddau o fis Hydref 2020 ymlaen.
- **Costau Cynllun Lleihau Trethi Cyngor (y Cynllun Lleihau Trethi)** - cyllideb y Cyngor ar gyfer talu cost y Cynllun Lleihau Trethi am 2020/21 oedd £6.016m gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi £5.037m yn Asesiad Gwariant Safonol y Cyngor oedd wedyn yn bwydo drwodd i'w Grant Cymorth Refeniw. Wrth i'r sefyllfa economaidd waethygu a diweithdra gynyddu, byddai nifer hawlwyd y Cynllun Lleihau Trethi yn cynyddu. Hyd at ddiwedd mis Mai, roedd amcangyfrif y gost wedi cynyddu £148k i £ 6.19m a'r disgwyl oedd iddo barhau i godi pan ddeuai'r cynllun ffyrlo i ben. Roedd yn anodd amcangyfrif sut y byddai'r llwyth achosion yn cynyddu dros y misoedd nesaf, ond byddai amcangyfrif ceidwadol o 10% yn cynyddu cost y cynllun £600k. Roedd trafodaethau rhwng y cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru yn parhau ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru yn ariannu rhan neu'r cyfan o'r costau ychwanegol hyn.
- **Casglu Trethi Cyngor** - cyfanswm y debyd ar gyfer Treth y Cyngor ar gyfer 100% o'r sylfaen dreth oedd £42.1m gyda £10.9m ychwanegol yn cael ei gasglu mewn praeseptau ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru a chynghorau cymuned, gan wneud cyfanswm i'w gasglu o £53m llai £6.1m trwy'r Cynllun Lleihau gan roi swm net i'w gasglu o £46.9m. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu peidio â chodi premiwm cartrefi gwag am chwe mis cyntaf y flwyddyn a hefyd ymestyn yr eithriadau ar gyfer eiddo gwag a fyddai'n lleihau'r debyd £191k ar amcan. Rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa economaidd yn ei gwneud yn anoddach casglu Treth y Cyngor. Roedd trethdalwyr wedi cael gohirio'r rhandaliad cyntaf rhwng misoedd Ebrill a Mehefin ac roedd hyn, ynghyd â'r ffaith nad oedd unrhyw gamau adfer wedi cychwyn, eisoes wedi arwain at gasglu 1.5% yn llai o incwm ym mis Mai, 2020 o'i gymharu â mis Mai, 2019. Roedd pob 1% dan y gyfradd casglu arferol yn lleihau'r incwm oddeutu £400k.
- **Pwysau ar Gyllidebau Gwasanaeth** - ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 roedd Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i brofi pwysau cyllidebol ac roeddent wedi gorwario. Rhoddwyd £1.3m ychwanegol yng nghyllideb y Gwasanaethau Oedolion i dalu am y diffyg o £1.085m ar y gyllideb gwasanaeth. Roedd y feirws wedi cael effaith ar y boblogaeth oedrannus yn arbennig, gyda nifer uwch o farwolaethau yn y grŵp hwn. Nid oedd yn eglur ar hyn o bryd sut byddai'r pandemig yn cael effaith ar nifer y cleientiaid yn y dyfodol a'r gwasanaeth y byddai ei angen arnynt/ yn ofynnol ar eu cyfer. Roedd yn debygol o gael effaith ar gostau yn y dyfodol ond nid oedd yn eglur i ba raddau y byddai hyn. Yn seiliedig ar ddarparu'r gwasanaeth cyfredol a'r llwyth achosion, roedd yn debygol y byddai'r gwasanaethau ar gyfer y gyllideb oedrannus yn gorwario £250k ond y gwneid iawn am hyn gydag arbediad o £100k ar amcan mewn costau staffio, gan arwain at orwariant, ar amcan, o £150k. Yn ogystal, roedd y pandemig wedi arwain at ohirio'r broses aildendro am y Gwasanaeth Byw â Chymorth, gan olygu na chyflawnid yr arbedion a gynlluniwyd, ac roedd ansicrwydd a oedd grant Pwysau'r Gaeaf Llywodraeth Cymru, gwerth £300k, ar gael, o gofio'r cyllid ychwanegol sylweddol yr oedd eisoes



wedi'i roi i ymdrin â'r pandemig. At hynny, gallai bod costau ychwanegol yn sgil codiad cyflog uwch nag a gyllidebwyd ar ei gyfer i staff nad oedd yn athrawon ac roedd angen buddsoddi'n ychwanegol mewn adnoddau TG oedd wedi bod yn allweddol wrth gefnogi'r newid i weithio o gartref yn ystod y pandemig. Byddai'n rhaid ariannu diffyg cyffredinol y gyllideb, beth bynnag a fyddai hyn, o ystyried popeth, o falans Cronfa Gyffredinol y Cyngor o £7m ac, er bod hyn yn bosibl, byddai'n glastwreiddio sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddifrifol wrth iddo symud i mewn i 2021/22 .

- **Cyllideb 2021/22 a Thu Draw i hynny** - roedd y pandemig wedi gohirio proses gosod cyllideb y Cyngor a fyddai, fel arfer, wedi dechrau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf ac 'roedd, hefyd, wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch setliad llywodraeth leol a gallu'r Cyngor i gynyddu Treth y Cyngor. Wrth dderbyn mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru (3.8%) yn 2020/21, y gobaith oedd bod cyni wedi dod i ben ac y byddai setliadau yn y dyfodol o leiaf yn talu chwyddiant prisiau a chyflogau. Efallai y byddai angen newid y dybiaeth honno ond, hyd yma, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwydd o setliadau ariannol y dyfodol. Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019 yn rhagdybio cynnydd yn Nhref y Cyngor o tua 5% yn 2021/22 a 2022/23 er mwyn ariannu gwasanaethau ar eu lefel gyfredol. Byddai'n rhaid ystyried effaith economaidd y pandemig ar Ynys Môn i sefydlu a fydd angen newid y rhagdybiaeth gynllunio hon. Câi Cynllun Ariannol cyfredol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi, 2020.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad gan ddiolch i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y dadansoddiad clir a chynhwysfawr.

Wrth fyfyrto ar y penderfyniad a wnaed ym mis Mawrth, 2019 i godi Treth y Cyngor yn sylweddol yn hytrach na defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i ariannu cynnydd gostyngedig yn y Dreth Gyngor yn 2019/20, roedd yr Aelod Portffolio - Cyllid o'r farn ei bod wedi bod yn ddoeth, yn wyneb digwyddiadau a'r alwad nawr ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor i'w helpu drwy'r argyfwng presennol. Er bod awdurdodau lleol yn cael eu beirniadu'n aml am gadw'r hyn oedd yn ymddangos fel symiau sylweddol wrth gefn, tynnodd sylw at y ffaith y câi cronfeydd wrth gefn o'r fath eu cadw'n benodol i helpu cynghorau i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl fel y pandemig cyfredol. Nid oedd modd gorbwysleisio pwysigrwydd bod â mynediad at gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd gan ei fod wedi galluogi'r Cyngor i gwrdd â'r heriau ariannol uniongyrchol a gyflwynwyd gan y coronafirws.

## **Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad.**

### **7. CRYNODEB O'R CYFRIFON DRAFFT TERFYNOL 2019/20**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

Adroddodd yr Aelod Portffolio - Cyllid mai'r hyn oedd yn yr adroddiad oedd Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2019/20 a'r Fantolen ddrafft hyd at 31 Mawrth, 2020 ynghyd â gwybodaeth am gronfeydd wrth gefn a balansau. Nid oedd y ffigurau yn yr adroddiad wedi'u harchwilio ac, felly, roedd modd iddynt gael eu newid. Câi'r adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor wedi i'r Archwiliad Allanol gael ei gwblhau. Wrth gyflwyno'r adroddiad, achubodd yr Aelod Portffolio - Cyllid ar y cyfle i ddiolch i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith yn ystod y pandemig a diolchodd hefyd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am yr arweiniad a roes yn ystod yr amser anodd hwn. Ategwyd y teimladau hynny gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarwydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y Datganiad drafft llawn o'r Cyfrifon ar gyfer 2019/20 ar gael ar wefan y Cyngor ac y câi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 21 Gorffennaf, 2020. I grynhoi –

- Roedd y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad yn dangos cost cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu yn hytrach na'r swm a ariannwyd o drethiant, ac ynddo roedd addasiadau ar gyfer dibrisiant, ailbriso asedau, ac ailfesur atebolrwydd pensiwn. Roedd y Llywodraeth yn derbyn na ddylai fod yn ofynnol i dalwyr treth y cyngor ariannu addasiadau o'r fath ac, felly, roedd y cyfrifon yn eithrio effaith y rhain yn y nodyn o'r enw Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu dan Reoliadau (Nodyn 7 yn y cyfrifon). Dangosai'r nodyn hwn am 2019/20 £8.782m o addasiadau cyfrifyddu a ganslwyd yn y Datganiad Symud Cronfeydd Wrth Gefn. Golygodd hyn y cafodd gwir effaith darparu gwasanaethau ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ei leihau, o ddiffyg o £7.683m i warged o £ 1.1m oedd yn gynydd yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor. Y rheswm dros hyn oedd tanwariant o £0.308m ar Gronfa'r Cyngor a thanwariant o £0.210m yn y CRT a throsglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Dangosodd Tabl 1 yr adroddiad y symudiad yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellid eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. £25.944m oedd balans yr holl gronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio ar 31 Mawrth, 2020, sef cynnydd o £ 1.1m (4.2%). Roedd cronfa wrth gefn y CRT, y balansau ysgolion a'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wedi'u clustnodi a dim ond at y diben dynodedig yr oedd modd eu defnyddio.
- Cyflwynai Atodiad 3 yr adroddiad fantolen ddrafft y Cyngor ar 31 Mawrth, 2020. Cynyddodd asedau net cyffredinol y Cyngor o £162.456m ar 31 Mawrth, 2019 i £190.618m ar 31 Mawrth, 2020, yn rhannol oherwydd ychwanegu Neuadd y Farchnad, Caergybi ac Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch, oedd newydd eu hadeiladu. Byddai'r Fantolen yn newid unwaith y câi canlyniadau'r Prisiad Pensiynau diwygiedig eu cynnwys yn Natganiad y Cyfrifon. Yn ddiweddar, gwnaed y penderfyniad i adolygu'r Prisiad Pensiynau i ddeall effaith y pandemig ar y gronfa bensiwn. Ni fyddai hyn yn cael effaith ar yr alldro ar gyfer 2019/20 nag ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio, oedd yn cynnwys y Gronfa Gyffredinol.
- Dangosai Tabl 3 yr adroddiad y symudiad mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Roedd y rhain yn gronfeydd a gâi eu dyrannu i fodloni ymrwymadau hysbys neu bosibl yn y dyfodol. Dangosai Tabl 4 yr adroddiad y cronfeydd wrth gefn newydd a glustnodwyd ac y gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo tra bo Atodiad 4 yn rhoi sefyllfa gyfredol fanwl y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Rhoddodd Tabl 5 yr adroddiad grynodedb o sefyllfa balansau'r ysgol. Roedd lefel balansau ysgolion wedi gostwng o uchafbwynt o £2.46m yn 2015/16 i £0.197m ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 - gostyngiad o 92% mewn pum mlynedd gan adlewyrchu'r anawsterau oedd yn wynebu mwyafrif ysgolion y Cyngor. £8.387m oedd Balans agoriadol y CRT ar 1 Ebrill, 2019. Yn sgil llithriad ar brosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn, bu tanwariant o £0.210m a arweiniodd at falans cau o £8.597m. Câi hwn ei ailfuddsoddi yn y CRT yn y dyfodol.

Er eglurhad, ailadroddodd yr Aelod Portffolio - Cyllid mai'r £7.060m yng Nghronfa wrth Gefn Gyffredinol Cronfa'r Cyngor oedd ar gael i'r Cyngor fel arian wrth gefn i gwrdd â gwariant annisgwyl a bod y cronfeydd wrth gefn eraill - Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor oedd wedi'u clustnodi, y CRT, Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion a Chronfeydd Derbyniadau Cyfalaf i'w defnyddio at y dibenion a ddynodwyd.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2019/20 (Y Datganiad o Gyfrifon llawn ar gael ar wefan y Cyngor).**
- **Nodi'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £0.160m fel y nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion.**
- **Nodi balansau'r CRT fel yr oeddent ar 31 Mawrth, 2020.**

**Y Cyngorydd Llinos Medi  
Cadeirydd**

**DRAFT**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>Adroddiad i:</b>	Y Pwyllgor Gwaith
<b>Dyddiad:</b>	Dydd Llun 17eg o Awst, 2020
<b>Pwnc:</b>	Y Sefyllfa Ddiweddaraf ar Gynllunio a Chyflawni Adferiad o'r Coronafeirws
<b>Deilydd (Deiliaid) Portffolio:</b>	Arweinydd y Cyngor a holl Aelodau'r Pwyllgor Gwaith
<b>Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr:</b>	Annwen Morgan Prif Weithredwr
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> Rhif Ffôn: E-bost:	Dylan J Williams, Dirprwy Brif Weithredwr 01248 752 499 <a href="mailto:dylanwilliams@ynysmon.gov.uk">dylanwilliams@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Aelodau Lleol:</b>	Yr holl Aelodau Etholedig

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau
<p><b>Argymhellion:</b></p> <p>a) Rhyddhau £200,000 o'r Cyfraniadau Refeniw sydd ar gael i'r Gronfa Wrth Gefn a glustnodwyd (balans cyfredol £842,917) er mwyn ariannu cost datblygu cynlluniau cyfalaf â blaenoriaeth a gweithio tuag at sicrhau cyllid grant cyfalaf ychwanegol i roi'r cynlluniau hynny ar waith.</p> <p>b) Dadneilltuo 25% o gyllideb teithio a chynhaliaeth 2020/2021 (£115,420) a'i ailneilltuo i waith adfer brys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• arbrawf rhithwir Cyswllt Môn yn holl lyfrgelloedd yr Ynys</li> <li>• galluogi trawsnewid prosesau busnes cyn gynted â phosibl</li> <li>• Cyflwyno system ddigidol a phe cyn hyfforddi newydd i wella a mireinio monitro gwaith rheoli contractau, adrodd arnynt a gwireddu buddion</li> </ul>

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Yn ei gyfarfod ar 13eg Gorffennaf 2020, cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar strwythurau a chyfrifoldebau mewnol i oruchwylio datblygiad pellach y Cyngor Sir a'r Ynys a'i adferiad o'r coronafeirws. Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith, mae gwaith blaenoriaethu a chanolbwyntio wedi parhau i fod ar sicrhau llacio mwy ar y cyfyngiadau symud, cadw swyddogion a phreswylwyr yn ddiogel, cyflawni canlyniadau cadarnhaol wrth gydweithredu'n ystyrlon â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol.
- 1.2 Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol ac ansicr i drigolion, cymunedau a busnesau. Er mwyn llacio mwy ar y rheolau, mae'n ofynnol defnyddio / glynu wrth fesurau diogelwch newydd, wrth hefyd geisio ei gwneud yn bosib i breswylwyr gymdeithasu, i fusnesau fasnachu'n fwy rhydd, ac i dwristiaid a pherchnogion ail gartrefi ymweld â'r Ynys eto. Mae cydymffurfio â chanllawiau diogelwch, cymryd cyfrifoldeb personol ac ymddwyn yn briodol yn hynod bwysig i sicrhau lleihau i'r eithaf ar achosion newydd o'r coronafeirws a gostwng y tebygolrwydd o achosion yn lleol.
- 1.3 Bwriwyd ymlaen gyda'r gweithgareddau, wrth hefyd ystyried a chynllunio ar gyfer ail don bosibl o achosion positif dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Mae'r heriau a'r ansicrwydd yn ei gwneud hi'n hanfodol bod y Cyngor Sir yn gwreiddio manteision gweithio'n ddiogel ac yn wahanol yn ei arferion ac yn eu defnyddio i'r eithaf.

## **2. Pwrpas**

- 2.1 Rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Gwaith ar waith cynllunio a chyflawni adferiad lleol a sicrhau cefnogaeth i benderfyniadau a wneir yn syth.

## **3. Trosolwg ar Adfer / Llacio'r Cyfyngiadau Symud**

- 3.1 Yn ystod mis Gorffennaf a dechrau mis Awst gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau cenedlaethol pwysig i lacio'r cyfyngiadau symud:
  - a) 6<sup>ed</sup> o Orffennaf – codi'r gofyn i aros yn lleol (radiws 5 milltir) ac atyniadau awyr agored i ymwelwyr yn agor
  - b) 11<sup>eg</sup> o Orffennaf - llety hunangynhwysol yn agor
  - c) 13<sup>eg</sup> o Orffennaf - siopau trin gwallt, y rhan fwyaf o atyniadau dan do, mannau awyr agored ar gyfer tafarndai, bariâu, caffis a bwytai yn agor
  - d) 20<sup>fed</sup> o Orffennaf - meysydd chwarae a chanolfannau cymunedol yn agor
  - e) 25<sup>ain</sup> o Orffennaf - llety gyda chyfleusterau a rennir (meysydd gwersylla, hosteli a gwestai) yn agor
  - f) 27<sup>ain</sup> o Orffennaf - salonau harddwch, stiwdios tatŵ, sinemâu dan do, orielau, a'r farchnad dai yn agor yn llawn
  - g) 3<sup>ydd</sup> o Awst - mannau dan do tafarndai, caffis, bariâu a bwytai yn agor
  - h) 10<sup>fed</sup> o Awst – cyfleusterau hamdden dan do yn agor

3.2 Mewn ymateb, mae'r Cyngor Sir wedi gwneud sawl penderfyniad lleol i sicrhau y cydymffurfir â hyn a'i gwneud yn bosib i'r sefydliad, swyddogion, preswylwyr, a busnesau lleol symud i'r 'normal nesaf' yn ddiogel ac yn effeithiol:

- a) 2<sup>il</sup> o Orffennaf - Canolfan Ailgylchu Gwalchmai yn agor gyda'r system archebu ymlaen llaw
- b) 6<sup>ed</sup> o Orffennaf - Saith llwybr troed cyhoeddus a holl feysydd parcio arfordirol y Cyngor yn agor, gyda gwasanaeth 'clicio a chasglu' yn cychwyn yn llyfrgelloedd Caergybi a Llangefni
- c) 13<sup>eg</sup> o Orffennaf - Ysgolion Ynys Môn yn agor am wythnos fel rhan o gynlluniau "Ailgydio, Dal i fyny a Pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi" Llywodraeth Cymru.
- d) 13<sup>eg</sup> o Orffennaf - saith llithrfa arfordirol heb staff a tair llithrfa arfordirol â staff yn agor, ynghyd â thoiledau cyhoeddus a gwasanaeth llyfrgell dosbarthu i'r cartref ar gyfer unigolion sy'n gaeth i'w cartrefi.
- e) 20<sup>fed</sup> o Orffennaf - Pencadlysoedd y Cyngor a'r Ganolfan Fusnes yn gallu gwneud lle i niferoedd cynyddol o staff nad oeddent yn gallu gweithio gartref (parhaodd mwyafrif y staff swyddfa i weithio gartref)
- f) 21<sup>ain</sup> o Orffennaf – y gwasanaeth clicio a chasglu yn cychwyn yn llyfrgelloedd Amlwch a Phorthaethwy
- g) 24<sup>ain</sup> o Orffennaf - y gwasanaeth clicio a chasglu yn cychwyn yn llyfrgelloedd Benllech a Biwmares
- h) 27<sup>ain</sup> o Orffennaf - y gwasanaeth clicio a chasglu yn cychwyn yn Llyfrgell Rhosneigr
- i) 5<sup>ed</sup> o Awst –Oriol Môn yn dechrau agor yn raddol
- j) 11<sup>eg</sup> o Awst – canolfannau hamdden yn dechrau agor yn raddol

#### 4. Datblygiad yr Adferiad Rhanbarthol

4.1 Cytunwyd ar y cylch gorchwyl olaf ar gyfer Grŵp Cydlynu Adferiad Gogledd Cymru (RCG), gyda'r nod o gydlynu gwaith datblygu a gweithredu strategaeth adfer ranbarthol. Mae Grŵp Cydlynu Strategol (SCG) ymateb brys Gogledd Cymru yn cael ei leihau, gyda'r RCG yn darparu'r strwythur a'r modd i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gallu cynllunio a darparu gweithgareddau adfer yn effeithiol.

4.2 Bydd yr SCG yn ailgymryd yr awenau unwaith eto os cyfyd yr angen, yn enwedig os bydd nifer yr achosion lleol yn cynyddu, neu os yw'n fwy tebygol y bydd ail don yn cyrraedd Gogledd Cymru.

4.3 Fel rhan o'r ymdrechion cydgysylltu rhanbarthol, mae Swyddogion y Cyngor Sir hefyd wedi bod yn cydweithredu i ddylanwadu ar broses paratoi cynllun adfer economaidd rhanbarthol a'i lywio. Caiff y gwaith hwn ei gydlynu gan swyddogion Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru. Y disgwyl yw y bydd cynllun drafft yn ei le ddechrau mis Medi i'r RGC a sefydliadau sy'n bartneriaid ei ystyried. At hyn, comisiynwyd adolygiad rhanbarthol o effaith cyfnod yr argyfwng ar yr economi ymwelwyr.

4.4 Mae Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wedi sefydlu Grŵp Adfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd yn dwyn i mewn Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch-swyddogion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Pwrpas y grŵp fydd cydlynu'r raglen adfer iechyd a gofal cymdeithasol. Y flaenoriaeth nawr fydd ystyried pwysau'r gaeaf, y gwaith iechyd arferol sydd wedi pentyrru (oherwydd blaenoriaethu achosion Covid-19 mewn ysbytai), ail don bosib o Covid-19 yn y gaeaf a chynllunio ar gyfer y rhain i gyd.

4.5 Cydlynir y gwaith adfer gwytnwch cymunedol trwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd a Môn). Mae gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer gweithdy ddechrau mis Medi yn mynd rhagddo, gyda'r nod o gytuno ar feysydd ymyrraeth â blaenoriaeth. Byddir yn canolbwyntio ar nodi lle a sut gall y Bwrdd ychwanegu gwerth at ymyrraethau lleol ac unigol sy'n cael eu datblygu gan wahanol sefydliadau sy'n bartneriaid.

4.6. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn cydweithredu'n rhagweithiol trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddylanwadu ar raglenni ac ymyrraethau adfer cenedlaethol posibl a'u llywio, y gallai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno a'u hariannu (i'w gweithredu trwy awdurdodau lleol).

## 5. Datblygiad yr Adferiad Lleol

5.1 Mae'r Cyngor Sir wedi canolbwyntio ar gamau gweithredu ar unwaith i hwyluso a chefnogi adferiad lleol, wrth hefyd edrych yn y tymor hwy (i gysoni a dylanwadu ar y camau a amlinellir uchod ar lefel ranbarthol a chenedlaethol a'u llywio). Mae cynlluniau gweithredu adferiad drafft wrthi'n cael eu paratoi o safbwynt economaidd, cyrchfan a gwasanaethau cymunedol / cymdeithasol.

5.2 Mae'r cynllun adfer economaidd lleol drafft wedi ei ystyried gan y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth (dydd Iau y 6<sup>ed</sup> o Awst) a'r Bwrdd Rhaglen Llywodraethu Corfforaethol (Dydd Gwener y 7<sup>fed</sup> o Awst), mae manylion cynlluniau cyfalaf posibl a fyddai'n cefnogi adferiad hefyd wedi'u llunio a'u rhannu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio dylanwadu a sicrhau bod swm y cyllid cyfalaf a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu.

5.3 Yn gryno dyma sydd wedi'i wneud yn ddiweddar i gefnogi busnesau ac ysgogi'r economi lleol:

- a) Dosbarthwyd £25,000 i bum busnes Gogledd Ynys Môn fel rhan o Gynllun Adfywio Gogledd Môn a ariennir gan yr Awdurdod Datgomisio Niwclear
- b) Dosbarthwyd £13,000 i dri busnes lleol trwy'r rhaglen Arfor
- c) Mae 40 o fusnesau lleol wedi cael cefnogaeth trwy weinyddu grantiau "Cychwyn" Llywodraeth Cymru
- d) Cysylltwyd â 450 o ymgeiswyr posib am gymorth grant Trethi Busnes a'u cynghori
- e) Sicrhawyd cyllid Parth Menter Llywodraeth Cymru ar gyfer astudiaethau i ddatblygu, o bosib, ragor o gamau ychwanegol ar gyfer cynlluniau safleoedd ac eiddo presennol yn Llangefni a Chaergybi



- f) £628,000 wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd a gaiff eu cyflawni trwy gontractwyr lleol
- g) Sicrhawyd £143,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cerdded a beicio mwy a sicrhau bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn eu lle ac yn cael eu cyflawni trwy gontractwyr lleol

5.4 Parhau i gael ei ddatblygu mae'r cynllun adfer cyrchfan. Mae gwaith yr wythnosau diwethaf wedi canolbwyntio ar:

- a) Ymgyrch ailddarganfod Môn yn Ddiogel (yn ddigidol, yn y wasg, ac mewn lleoliadau allweddol)
- b) Cyhoeddi camau ac ymddygiadau diogel a pharchus a chodi ymwybyddiaeth ohonynt
- c) Rheoli gwaith bwrw ymlaen yn ddiogel â phrosiect paentio Pier Biwmares
- d) Datblygu ymgyrch newydd i leihau sbwriel
- e) Ail-lansio gwefan Croeso Môn a newid y cynnwys iddo nodi bod atyniadau a busnesau'n agored
- f) Dechrau rhoi cyhoedduswydd ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- g) Ymgysylltu â'r Gymdeithas Twristiaeth i rannu gwybodaeth a deall ei blaenoriaethau a'i phryderon / heriau

5.5 Parhau i gael ei ddatblygu mae cynllun adfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymunedol. Mae gwaith yr wythnosau diwethaf wedi canolbwyntio ar:

- a) Cwblhau ymweliadau cartref ac asesiadau'n rhithwir
- b) Ymgymryd â hyfforddiant rhithwir
- c) Gwneud gwaith cynnal a chadw y gofynna tenantiaid amdano yn eu cartrefi.
- d) Cynyddu nifer y gosodiadau a wneir i leihau nifer yr unigolion sy'n cael eu cartrefu mewn llety brys.
- e) Lleihau cefnogaeth gymunedol wrth i breswylwyr allu gwneud mwy drostynt eu hunain yn ddiogel.
- f) Cyflwyno meddalwedd newydd i ganolbwyntio ar leihau ôl-ddyledion rhent tenantiaid lle bo hynny'n bosibl.
- g) Ailgychwyn gweithgareddau cyfranogi tenantiaid a lleoedd cymunedol agored.

5.6 O ddechrau'r pandemig Covid-19, mae tîm Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â swyddogion a sefydliadau eraill, ar draws y ddwy adran wedi gweithio'n ddiflino i ddiogelu'r preswylwyr mwyaf bregus. Mae staff wedi gweithio saith niwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd i ymateb i achosion o COVID-19 a'u cefnogi. Wrth i gyfeiriadau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Oedolion ddychwelyd i'w cyfradd arferol, caiff staff eu cyflwyno i'r ddau faes gwasanaeth i reoli hyn. Mae gwaith cynllunio hefyd yn parhau am y Gaeaf yng Nghartrefi Preswyl Ynys Môn, a'r posibilrwydd am ail don.

5.7 Mae'r Cyngor Sir yn parhau i gydweithio a chyflawni mewn perthynas â'r Strategaeth Profi, Orlhain a Diogelu lleol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn lleihau achosion newydd, atal posibilrwydd a rheoli achosion lleol. Mae'r galwadau wedi bod yn isel yn ddiweddar, oherwydd nifer isel yr achosion newydd. Mae modd ateb y galw ar hyn o bryd trwy ymrwymiad swyddogion presennol y Cyngor Sir, tra bod y broses recriwtio ranbarthol i gael staff pwrpasol ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol yn parhau (gyda Chyngor Sir y Fflint yn arwain). Mae'r Cyngor Sir yn parhau i lobïo a phwyso am fwy o sicrwydd a chysondeb i sicrhau canlyniadau profion yn amserol, rhywbeth sy'n llywio'r gwaith Profi, Orlhain a Diogelu a wneir.

5.8 Daeth yr achosion diweddar mewn ffatri yn Llangefni i ben i bob pwrpas, heb unrhyw dystiolaeth y bu i'r feirws gael ei drosglwyddo i'r gymuned y tu hwnt i weithlu'r ffatri. Mae'r gwaith monitro'n parhau. O safbwynt iechyd yr amgylchedd, mae'r tîm bach o weithwyr proffesiynol hefyd yn cynnal cyfuniad o fesurau rhagweithiol ac adweithiol (gorfodi) i gynnal iechyd a hyder y cyhoedd, sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau a deddfwriaeth, a lleihau'r risg o ragor o achosion:

- a) Rhoi cyngor ac arweiniad i bob cartref gofal ar bob mater sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau COVID.
- b) Rhoi arweiniad i'r gwasanaethau cymdeithasol ar sut gellir sefydlu a chynnal swigod cymdeithasol yn ddiogel i drigolion bregus.
- c) Anfonwyd llythyrau ac e-byst i bob tafarn a bwyty (dros 400 eiddo) gyda chyngor a'u cyfeirio at wybodaeth am sut i agor a gweithredu'n ddiogel.
- d) Mae llythyrau ac e-byst wedi'u hanfon at siopau trin gwallt a siopau harddwch (dros 140 o sefydliadau) gyda chyngor a'u cyfeirio at wybodaeth am sut i agor a gweithredu'n ddiogel.
- e) Paratoi cylchlythyr yn rhoi cyngor i'r fasnach tacsis trwyddedig ar orchuddion wyneb.
- f) Adolygu asesiadau risg ar gyfer y rhai sy'n darparu gofal plant yn yr haf.
- g) Adolygu asesiadau risg a rhoi cyngor pan ofynna busnesau amdano.
- h) Cynnal archwiliadau monitro o adeiladau trwyddedig (tafarndai).
- i) Archwilio eiddo trwyddedig yn rhagweithiol gyda Heddu Gogledd Cymru yn sgil gwybodaeth
- j) Archwilio adeiladau trwyddedig wrth adweithio pan dderbynnir gwybodaeth.
- k) Hysbyseb cydymffurfio wedi'i chyflwyno i eiddo trwyddedig am dorri Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Rhif 2 (Cymru) 2020 fel y'u diwygiwyd (rheoliadau COVID-19).

## 6 Datblygiad Sefydliadol i Weithio'n Wahanol

- 6.1 Mae pwysigrwydd gweithio'n wahanol, ac ymgorffori newidiadau cadarnhaol ym mhrosesau, ymddygiadau a gwerthoedd y Cyngor Sir, wedi symud ymlaen hefyd. Cynhaliwyd ymarfer adlewyrchu a dysgu (i nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) ar sut mae'r cyfnod brys wedi'i reoli gan aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, a rheolwyr swyddogaeth. Yn ogystal, cwblhawyd arolwg digidol gweithio o gartref gan 897 o aelodau staff. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ac yn llywio'r blaenoriaethau datblygu sefydliadol a'r cynllun gweithredu i weithio'n wahanol fel rhan o'r 'normal nesaf'.
- 6.2 Mae modd crynhoi themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg i weithio'n wahanol (mae modd iddynt gael eu newid a'u datblygu ymhellach) fel:
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a roddir gan Dechnoleg Gwybodaeth
  - Prif ffrydio ac adeiladu ar y buddion amgylcheddol, hinsawdd a datgarboneiddio
  - Gwella gweithio thematig ar draws y strwythur, gwasanaethau, swyddogaethau a thimau
  - Gwella effeithlonrwydd trwy leihau amseroedd teithio a phrosesau swyddfeydd â llaw
  - Sicrhau gwell cydbwysedd rhwng gweithio yn y swyddfa / gartref, a manteision lles i swyddogion, wrth fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd rhai swyddogion sy'n byw ar eu pennau eu hunain.
  - Cynyddu gallu swyddogion i addasu a newid gyda sgiliau, galluogrwydd ac ymddygiadau (sy'n hanfodol ar gyfer y normal nesaf)
  - Cynnal a gwella cydraddoldeb, hygyrchedd gwasanaeth a gofal cwsmer

## 7 Adfer yr Economi Lleol

### 7.1 Adfer Canol Trefi

- 7.1.1 Mae cynorthwyo a galluogi preswylwyr ac ymwelwyr i ddychwelyd i bum canol tref yr Ynys yn ddiogel yn flaenoriaeth brys. Rhaid i weithredoedd gyfrannu at godi hyder yn gyffredinol fel bod mwy o bobl yn mynd yn ôl i ganol trefi'n ddiogel ac yn cefnogi busnesau bychain. Mae canol trefi hefyd yn flaenoriaeth gydnabyddedig i Lywodraeth Cymru gyda chydweithrediad rhanbarthol sylweddol. Er mwyn cefnogi adferiad, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo rhan o'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Adfywio wedi'i Dargedu i ddiben arall gan ddefnyddio grant cyfalaf o £108,000. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i:
- Gyflwyno strategaeth arwyddion gyson, glir sydd â brand, yn atgoffa pobl i aros yn ddiogel wrth ymweld (yn gyson â brand "Ailddarganfod Môn" Croeso Cymru). Bydd y strategaeth arwyddion yn dilyn templed syml, gan ddylanwadu ar ymddygiadau i gadw pawb yn ddiogel (a chadw lefelau hyder yn uchel).

- b) Cyfraniad ariannol i bob Cyngor Tref cymwys i gefnogi eu hymdrechion i greu amgylchedd diogel a denu pobl yn ôl. Dylai mesurau wneud i breswylwyr ac ymwelwyr deimlo'n ddiogel, wrth greu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar sy'n galluogi busnesau i weithredu'n ddiogel.
- c) Archwilio'r posibilrwydd o dechnoleg ddigidol newydd i wella diogelwch a phrofiad ymwelwyr.

## 7.2 Datblygu Cynlluniau Cyfalaf Newydd

7.2.1 Gellid ariannu nifer o gynlluniau cyfalaf posibl y Cyngor Sir yn allanol fel rhan o'r adferiad economaidd, gwyrdd, lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gynlluniau ledled y wlad y gellid eu cefnogi a'u cyflawni heb unrhyw oedi. Gallai'r rhain fod o fudd i'r Ynys, yr economi, busnesau, cymunedau a'r Cyngor Sir yn y tymor byr a'r tymor hir. Fodd bynnag, er mwyn manteisio i'r eithaf, rhaid i'r cynlluniau gael eu datblygu'n llawn a bod yn barod i'w gweithredu. Mae angen adnoddau a gallu ychwanegol i allu symud ymlaen gyda'r cynlluniau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt o ran dyluniad, costau, buddion a chaniatâd. Heb y buddsoddiad ychwanegol hwn, ni fydd y Cyngor Sir na'r Ynys yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllid grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd thematig allweddol sy'n gyson â'r Cynllun Corfforaethol, megis:

- \* codi tai cyngor newydd
- \* Cyfleusterau Parcio a Rhannu Cerbydau Trydan a mannau gwefru Ceir Trydan mewn lleoliadau twristiaeth strategol
- \* seilwaith gwyrdd i annog newid ymddygiad
- \* codi unedau busnes newydd mewn ymateb i anghenion lleol
- \* gwella cyfleusterau lles ac iechyd corfforol
- \* manteisio ar werth economaidd, cymdeithasol a diwylliannol twristiaeth

## 7.3 Rheoli Contractau

7.3.1 Mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i gynorthwyo busnesau lleol i is-gontractio neu gontractio'n uniongyrchol gyda'r Awdurdod. Mae gwaith ar y gweill i baratoi 'Llawlyfr Rheoli Contractau', gydag chymorth a gwybodaeth. Dylai hyn ddod law yn llaw â hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth effeithiol. Mae angen system ddigidol hefyd fel bod modd rheoli, monitro ac adrodd ar gontract yn effeithiol ac yn gyson. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phorth Gwerth Cymdeithasol i greu system mesur buddion / canlyniadau sy'n cyd-fynd â saith thema Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ystyried sut gellir gwella gwaith monitro ac adrodd corfforaethol. Byddai'r camau hyn yn cyfrannu at sicrhau y gellir gwireddu mwy o fuddion lleol trwy gontractau.

## 8 Newid i Ffordd yr Awdurdod o Weithio

### 8.1 Cyswllt Môn

8.1.1 Mae angen adolygu'r addasiadau a'r newid mewn dull i amddiffyn y gweithlu, y preswylwyr a chynnal gwaith darparu gwasanaeth o ran blaen tŷ Cyswllt Môn yn y dyfodol. Mae yna gyfleoedd i addasu'r model gweithredu cyfredol a threialu gwahanol ddulliau tra'n cynnal y gwasanaeth craidd a ddarperir o'r prif swyddfeydd yn Llangefni. Y nod fydd cynnal cydraddoldeb mynediad, safonau gofal cwsmer, diogelwch, bod yn gynhwysol a lleihau'r angen i deithio. Gwneir hyn er mwyn treialu trefniadau cyswllt aml-sianel, defnyddio cyfleusterau yn y gymuned, hyrwyddo sianeli digidol a sicrhau "mynediad i bawb".

8.1.2 Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gydraddoldeb cyfleoedd a hygyrchedd a byddai'r arbrawf yn llywio penderfyniadau'r dyfodol ar sut dylai cyfleusterau cymunedol weithredu fel hybiau/pyrth i ymgysylltu, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu'n rhithwir gyda phreswylwyr nad oes ganddynt eu dyfeisiau personol na'r modd i gysylltu. Byddai'r arbrawf hwn yn fodd i'r preswylwyr archebu cyfnod amser i fynd i lyfrgell a chyfarfod ag aelod o Dîm Cyswllt Môn yn rhithwir heb fod angen teithio. Pe bai hyn yn llwyddiannus, yna byddid yn symud ymlaen gyda'r broses o'i gyflwyno i wahanol Wasanaethau.

### 8.2 Dyluniad a diwylliant Sefydliadol (Gweithio'n Wahanol)

8.2.1 Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o brosiectau i newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, yn fewnol a hefyd sut mae'n ymdrin â'i gwsmeriaid. Mae prosiectau sydd wedi arwain at newidiadau gweithredol wedi cynnwys prosiect Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, prosiect Adnoddau Dynol / Cyflogres Northgate, gwelliannau i'r system gynllunio, ei gwneud yn bosib i gwsmeriaid dalu am wasanaethau'r Cyngor trwy'r rhyngwyd, integreiddio ffurflenni Budd-dal Tai yn uniongyrchol i'r system swyddfa gefn, cyflwyno dogfennu llif gwaith mewn Cynllunio a Refeniw a Buddion. Mae'r holl newidiadau hyn wedi gwella amseroedd prosesu ac wedi rhyddhau staff rhag ymgymryd â gwaith papur.

8.2.2 Mae gwerthwyr meddalwedd hefyd yn cyflwyno cenhedlaeth newydd o feddalwedd sy'n cynnig lefel uwch o awtomeiddio, gan ganolbwyntio ar lifoedd gwaith i wneud prosesau'n fwy effeithlon. Fodd bynnag, fel iawn am hyn, mae gwerthwyr yn chwilio am gwsmeriaid i symud i raglen y telir amdani wrth danysgrifio amdani ac sydd yn y cwmwl yn hytrach nag ar y gweinyddwyr ffisegol a gaiff eu rhedeg gan y Cyngor. Mae'r mathau hyn o drefniadau'n fwy costus na'r costau trwyddedu traddodiadol ond maent yn creu arbedion i'r Awdurdod o ran cost cefnogi gweinyddwyr ffisegol a'r ynni a ddefnyddir wrth redeg y gweinyddwyr. Mae angen gwneud mwy o waith i ystyried manteision ac anfanteision defnyddio mwy o feddalwedd yn y cwmwl ond mae'n gyfle i newid prosesau busnes y Cyngor ac mae hefyd yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon y Cyngor.

8.2.3 Mae cyfle hefyd i sicrhau mwy o newid nawr trwy gyflwyno adnodd ychwanegol. Gellid defnyddio'r adnodd ychwanegol i gynyddu gwaith cyflwyno mwy o wasanaethau y gellir eu darparu i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Yn gyflym, byddai hyn yn cael effaith ar nifer y systemau papur sy'n gweithredu yn y Cyngor a byddai'n fodd i gwsmeriaid gael mynediad at fwy o wasanaethau'r Cyngor heb orfod dod i swyddfeydd y Cyngor. Un enghraifft yn unig yw hon ond gallai fod meysydd eraill a allai elwa ar yr adnodd ychwanegol hefyd.

8.2.4 Mae'r Grŵp Trawsnewid Prosesau Busnes, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Trawsnewid, yn monitro ac yn rheoli'r gwaith i wella prosesau busnes y Cyngor. Rhagwelir y bydd y Grŵp hwn yn parhau â'r gwaith hwn gan gynnwys monitro'r defnydd a wneir o unrhyw gyllid ychwanegol sydd ar gael a'r buddion a wireddir ac adrodd arno. Mae'r Grŵp Trawsnewid Prosesau Busnes yn adrodd i'r Bwrdd Trawsnewid Corfforaethol.

## **9. Cyllideb Teithio a Chynhaliath (2020/2021)**

9.1.1 Mae gan staff y cyngor sy'n defnyddio eu cerbydau preifat eu hunain i deithio ar fusnes y Cyngor hawl i hawlio lwfans car am y milltiroedd a wneir yn unol â chynllun y Cyngor y cytunwyd arno. Cedwir y gyllideb i ariannu'r costau hyn o fewn cyllidebau gwasanaeth unigol. Mae'r pandemig a'r cyfyngiadau symud yn sgil hynny wedi gorfodi'r Cyngor i weithredu'n rhithwir, sy'n rhoi cyfle i wneud arbedion unwaith ac am byth (2020/21 yn unig) a, hefyd, arbedion parhaol. Dros y pedwar mis diwethaf, mae'r holl ymweliadau nad ydynt yn hanfodol wedi dod i ben ac mae gwasanaethau wedi gallu parhau â lefel o wasanaeth a gyflawnir trwy alwadau ffôn a fideo, cael tystiolaeth trwy ffotograffau a chynnal archwiliadau rhithwir.

9.2.2 £665,200 yw cyfanswm cyllideb y lwfans ceir a £23,250 yw'r gyllideb cynhaliath ar gyfer 2020/2021. Mae tynnu cyllidebau a ariennir gan grant, cyllideb ddirprwyedig ysgolion a chyllideb y Cyfrif Refeniw Tai yn gostwng y ffigurau hyn i £591,260 ar gyfer lwfansau ceir a £21,760 ar gyfer cynhaliath. Dylid, hefyd, ddiystyru cyllidebau ar gyfer teithio hanfodol i ofalwyr cartref a gofalwyr maeth gan fod y gwasanaethau hyn wedi parhau yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Mae hyn yn lleihau'r cyllidebau ymhellach i £439,920 ar gyfer lwfansau ceir a £21,760 ar gyfer cynhaliath.

9.3.3 Mae cymharu'r cyllidebau hyn â'r gwir wariant hyd ddiwedd y chwarter cyntaf yn dangos mai dim ond 10.7% o'r gyllideb lwfansau ceir wedi'u haddasu a 2.9% o'r gyllideb cynhaliath wedi'i haddasu a wariwyd yn ystod y chwarter cyntaf. Os bydd rhyw lun o normalrwydd yn yr ail chwarter ac ymlaen, mae'n debygol y bydd tanwariant sylweddol. Y cynnig, felly, yw lleihau'r cyllidebau hyn 25% a defnyddio'r arian a gynhyrchir i ariannu gwaith adfer arall yn 2020/21. Bydd hyn yn creu cronfa o £115,420.

9.3.4 Bydd yr holl gyllidebau lwfans ceir yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2021/22 er mwyn cyfrannu at y targed arbedion cyffredinol.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham y bu i chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**C – Pam mai penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hwn?**

Materion adfer ac ailneilltuo cyllidebau y cytunwyd arnynt mewn ymateb i effeithiau argyfwng Covid-19

**D – Ydi'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**DD – Ydi'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor**

Ydi – ond gydag ychydig o ailneilltuo o'r cyllidebau y cytunwyd iddynt

**E – Effaith ar ein Cenedlaethau i'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)**

1	<b>Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys</b>	Mae'r argymhellion arfaethedig yn ymateb i'r anghenion a'r cyfleoedd uniongyrchol, gan obeithio cryfhau'r sylfaen a'r gallu i ymateb i heriau a chyfleoedd yn y dyfodol (o ganlyniad uniongyrchol i argyfwng COVID-19).
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / bod yn ddibynnol ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut:</b>	Ydi - gallai'r gweithgareddau y byddid yn bwrw ymlaen â nhw yn fodd i gael gwasanaeth mwy effeithlon, cyfartal a modern i ddiwallu anghenion lleol.
3	<b>A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn. Os felly, rhwch wybod i bwy:</b>	Mae'r Cyngor Sir wedi bod yn cydweithredu'n rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau y caiff ei gynigion eu llywio gan anghenion a chyfleoedd lleol.

4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut: -</b>	
5	<b>Amlinellwch pa effaith y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr Agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg</b>	Er mwyn cynnal a gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod y cyfnod adfer, bydd cyfle cyfartal a gwybodaeth / gwasanaethau dwyieithog yn parhau i fod yn hanfodol bwysig.

<b>E – Pwy wnaethoch ymgynghori â nhw?</b>		<b>Beth wnaethon nhw ei ddweud?</b>
1	<b>Y Prif Weithredwr/ Tîm Arweinyddiaeth Strategol</b> (gorfodol)	Cynigion wedi'u defnyddio i lywio cwrpas a natur yr adroddiad terfynol ac i ddylanwadu arnynt
2	<b>Cyllid / Adran151</b> (gorfodol)	Cefnogi'r argymhellion
3	<b>Swyddog Monitro / Cyfreithiol</b> (gorfodol)	Cefnogi'r argymhellion
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Cefnogi'r argymhellion
5	<b>Eiddo</b>	
6	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCH)</b>	Cefnogi'r argymhellion
7	<b>Caffael</b>	Cefnogi'r argymhellion
8	<b>Sgriwtini</b>	
9	<b>Aelodau Lleol</b>	

<b>F - ATODIADAU:</b>

<b>FF – Papurau Cefndir (a fyddech cystal â chysylltu ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):</b>
Pwyllgor Gwaith - Cynllunio Gwaith Cynnar ar gyfer Adfer yn dilyn Haint y Coronafeirws (Cyfarfod dydd Llun, 13eg o Orffennaf)



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Gwaith
<b>Dyddiad:</b>	17eg Awst,2020
<b>Pwnc:</b>	Y Polisi Gosod ar gyfer Tai Cymdeithasol a Covid 19
<b>Deilydd(ion) Portffolio:</b>	Y Cynghorydd Alun Mummery
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Ned Michael
<b>Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:</b>	Elliw Llŷr, Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu, Gwasanaethau Tai 01248 752137
<b>Aelodau Lleol:</b>	Amherthnasol

#### A –Argymhellion a Rhesymau

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo: -

**A1** Newid rhannol dros dro i'r Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai mewn ymateb i effaith Covid-19 ar lety brys / dros dro i aelwydydd digartref am gyfnod o hyd at 6 mis yn dilyn argymhelliad Llywodraeth Cymru mewn perthynas a digartrefedd.

**A2** bod achosion o osod llety yn ystod y cyfnod hwn i Aelwydydd Digartref yn cael eu cymeradwyo gan Reolwr y Tîm Opsiynau Tai.

#### Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cadarnhau y bydd dyletswydd lawn i ailgartrefu'n barhaol unrhyw aelwydydd y darperir llety brys iddynt yn ystod cyfnod clo'r pandemig. Mae hyn yn seiliedig ar y Canllawiau a roddwyd i Awdurdodau Lleol ar 28 Ebrill o dan Adran 75- Dyletswydd i sicrhau llety i ymgeiswyr ag angen blaenoriaethol, lle bydd gofyn ystyried pawb yn y categori hwn fel ymgeiswyr a chanddynt angen blaenoriaethol ac y mae gan yr awdurdod felly ddyletswydd i gynnig llety parhaol iddynt. Er mwyn gwneud hynny, bydd y Gwasanaethau Tai angen dull hyblyg o weithredu fel y gellir symud pobl o lety brys neu lety dros dro i lety sefydlog.

Byddai cymeradwyo hyn yn gyson â chanllawiau LIC ar Ran 2 y Canllawiau Cynllunio ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â

Thai .

Mae Rhan D yn cyfeirio at “gynyddu argaeledd tai cymdeithasol i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref”. Mae hyn yn nodi bod yn rhaid “gosod tai yn unol â chynlluniau trosiannol awdurdodau lleol. Mae'n hanfodol bod pob landlord cymdeithasol gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol yn chwarae eu rhan i gynyddu argaeledd tai i bobl sy'n cael llety yn ystod cam 1... mae hyn yn cynnwys adolygu Polisiâu Gosod .”

Yn ystod y cyfnod clo ac oherwydd y gofynion pellter cymdeithasol mae'r Gwasanaethau Tai wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cyflwyno fel pobl ddigartref yn ystod 2020-21. Mae hyn wedi amrywio o 26 aelwydydd ar ei isaf a 59 ar ei uchaf yn cael eu rhoi mewn llety brys o'i gymharu ag 1 ar ei isaf a 26 ar ei uchaf yn 2019-20.

Trwy gymeradwyo'r argymhelliad uchod, bydd y dull gosod uniongyrchol yn cael ei weithredu ar gyfer hyd at 50% o'r rhybuddion a dderbynnir yn ystod y 6 mis nesaf. Fel y mae'r Pwyllgor Gwaith yn gwybod, mabwysiadwyd Polisi Gosod diwygiedig yn ddiweddar ym mis Medi 2019 ac yn dilyn adolygiad o'r ymgeiswyr ar y Gofrestr daeth y polisi i rym ym Mehefin, 2020.

Ers 1 Ebrill, 2020 mae'r Gwasanaethau Tai wedi derbyn 42 o rybuddion a gellir ystyried y nifer hwn fel arwydd o nifer y rhybuddion yr ydym yn disgwyl eu derbyn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae hefyd yn bwysig cydnabod na ellir cyfatebu pob aelwyd ddigartref gyda'r stoc o dai cymdeithasol ar yr ynys.

Ni fyddai Polisiâu Gosodiadau Lleol fel y'u diffinnir mewn cytundeb Adran 106 yn cael eu heffeithio.

Yn ogystal â'r stoc tai cymdeithasol, mae'r Tîm Atal Digartrefedd hefyd wrthi'n chwilio am gartrefi mewn sectorau eraill fel y sector rhentu preifat a thai â chymorth.

### **Sut y byddai hyn yn gweithio?**

Ar hyn o bryd mae Polisi Gosod Cyffredin 2019 yn cynnwys cafeat achos eithriadol lle gellir mynd i'r afael ag amgylchiadau nad ymdrinnir â hwy o fewn y Polisi. Trwy ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer 50% o'r tai a osodir bydd yn sicrhau y byddai'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai yn cael eu hystyried ac yn cael cynnig tai addas.

Mae'r geiriad yn y Polisi fel a ganlyn ac mae'n adlewyrchu'r statws bandio.

### **‘Achosion eithriadol o angen am dai lle nad ymdrinnir â'r amgylchiadau mewn rhan arall o'r cynllun hwn’**

Ymgeisydd sydd wedi cael ei asesu fel un ag angen eithriadol a lle mae statws Band x (p' un bynnag sydd fwyaf perthnasol i'r bandio) wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth Gwasanaethau Tai'r Cyngor.

Argymhellir rhoi grym dirprwyedig i'r Rheolwr Opsiynau Tai gymeradwyo gosod uniongyrchol ar gyfer Aelwydydd Digartref yn ystod y cyfnod hwn.

Gellir defnyddio dull ymyrraeth wedi'i thargedu hefyd trwy edrych ar y lleoliadau y bydd y galw mwyaf amdanynt gan Aelwydydd Digartrefedd a'r tebygolrwydd y bydd llety addas yn dod ar gael yn yr ardaloedd hynny.

#### **Adolygu**

Bydd gweithdrefn yn cael ei datblygu i gyd-fynd â'r newidiadau hyn ac adolygir y gosodiadau'n barhaus i sicrhau y rhoddir cefnogaeth briodol i gynnal y tenantiaethau.

#### **Ymgynghori**

Ymgynghorwyd â'r Landlordiaid Tai Cymdeithasol sy'n bartneriaid i ni, Tai Gogledd Cymru, Grŵp Cynefin a Clwyd Alyn ar y newid hwn. Mae Grwp Cynefin wedi cadarnhau eu parodrwydd i weithio hefo ni.

### **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac / neu pam y dewiswyd yr opsiwn hwn?**

Byddai peidio newid y Polisi yn golygu na fyddai'r rheini sydd mewn Llety Brys yn cael cynnig o lety sefydlog am gyfnod anhysbys.

Mae argaeledd tai yn y sector rhentu preifat yn gyfyngedig ac ni fyddai modd lletya pob aelwyd ddigartref yn y Sector hwn.

### **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae newid y Polisi Gosod Cyffredin yn fater i'r Pwyllgor Gwaith.

**D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

<b>E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)</b>	Yn gefnogol i'r argymhelliad.
2	<b>Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)</b>	Yn gefnogol i'r argymhelliad.
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)</b>	Fel uchod
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Amherthnasol
5	<b>Eiddo</b>	Amherthnasol
6	<b>Technoleg Gwybodaeth (TG)</b>	Amherthnasol
7	<b>CaffaelA</b>	Amherthnasol
8	<b>Sgriwtini</b>	
9	<b>Aelodau Lleol</b>	

**F - Atodiadau:****F – Risgiau a chamau lliniaru (os yn berthnasol)**

1	<b>Economaidd</b>	Dim
2	<b>Gwrthdodi</b>	Dim
3	<b>Trosedd ac Anhrefn</b>	Dim
4	<b>Amgylcheddol</b>	Dim
5	<b>Cydraddoldebau</b>	Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – dim effeithiau wedi eu nodi
6	<b>Cytundebau Canlyniadau</b>	Dim

<b>7</b>	<b>Arall</b>	
----------	--------------	--

<b>FF - Atodiadau:</b>
Atodiad 1 Polisi Gosod Tai

<b>G – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):</b>

This page is intentionally left blank

# **PRAWF BUDD Y CYHOEDD**

## **PUBLIC INTEREST TEST**

Cynllun Tai Cyngor newydd yn Rhosybol

Rhosybol New Council Housing Scheme

**Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 12, 13 & 14 rhan 1**  
**Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 / Paragraph(s) Not for publication by reason**  
of paragraph 12,13 & 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

**12. Gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol / Information relating to a particular individual**

**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod) / Public Interest Test applies (see below)**

**13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn / Information which is likely to reveal the identity of an individual**

**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod) / Public Interest Test applies (see below)**

**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth) / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)**

**Nid yw gwybodaeth sydd dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig dan y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru dan:- / Information falling within paragraph 14 is not exempt information by virtue of that paragraph if it is required to be registered under:-**  
**Deddf Cwmnïau 1985 / the Companies Act 1985 Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974 / the Friendly Societies Act 1974 Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992 / the Friendly Societies Act 1992 Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978 / the Industrial and Provident Societies Acts 1965 to 1978 Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 / the Building Societies Act 1986; neu / or Deddf Elusennau 1993 / the Charities Act 1993**

**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod) / Public Interest Test applies (see below)**

#### Y PRAWF – THE TEST

Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-

**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mi fyddai'r cyhoedd a'r datblygwr yn gweld faint mae'r Cyngor yn fodlon talu am dai cyngor newydd cyn bod cytundeb pris wedi ei gytuno'n derfynol.**

**This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, the public and developers would see how much the Council is willing to pay for new Council houses before the price has been finally agreed.**

Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-

**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mai'n bosibl y byddai'n gallu i negydu contractau gyda contractwyr eraill yn y dyfodol yn anoddach.**

**Byddai cyhoeddi'r wybodaeth yn gosod cysail o ran faint mae'r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.**

**This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, it is possible that the ability to negotiate contracts with other contractors would be more difficult in future.**

**Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work.**





This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank